# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 13 Tachwedd 2024

Yn bresennol
Y Cynghorydd M James (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair gan fod Dr Heath-Davies yn anhwylus ac o bosibl y byddai wedi gorfod gadael y cyfarfod), Y Cynghorydd D Clements, Dr R Heath-Davies, Dr M Havard, Dr R Plummer (yn dirprwyo ar ran Mrs J James), y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a Mrs V Thomas.

Swyddogion yn bresennol
Y Prif Weithredwr, Y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, Y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Y Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu, Y Cyfarwyddwr Byd Natur a Thwristiaeth, Y Pennaeth Datgarboneiddio, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.45pm; 12.00pm - 1.10pm)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James a'r Cynghorydd A Tinley.

**2. Datgan Buddiannau**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant cyffredinol gan Dr R Plummer.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2024 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd Clements, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2024.

[Gan fod y Cadeirydd wedi colli ei gysylltiad rhithiol, cymerodd Cadeirydd yr Awdurdod, y Cynghorydd Clements, y Gadair yn ystod yr eitem ganlynol.]

**4. Materion yn Codi/ Cofnod Gweithredu**

Nodwyd y diweddariadau yn y Log Gweithredu. Gofynnwyd am i e-byst dilynol gael eu hanfon at yr Aelodau hynny nad oedd wedi llofnodi'r Polisi Defnyddwyr TGCh (ID 1009). Dywedodd y Prif Weithredwr bod y gwaith ar gofrestri is-risg (ID 995) wedi dechrau a bod y Tîm Rheoli i gynnal archwiliad dwfn o Amcan 5, "Bod enw da yr Awdurdod yn cael ei ddiogelu", yn ystod mis Rhagfyr. Nodwyd bod y Strategaeth Rheoli Llwybr

yr Arfordir (ID 1007) wedi'i dosbarthu a bod gwaith i ddiweddaru'r ddogfen wedi dechrau. Cytunwyd y dylid cynnal Gweithdy ar y Strategaeth newydd yn y gwanwyn cyn cyflwyno adroddiad gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ceisio cytundeb yr Awdurdod.

**Nodwyd.**

**5. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch**

Derbyniwyd adroddiad y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf 2024. Dywedodd un Aelod, oherwydd y pwnc dan drafodaeth, ei bod o’r farn y dylai'r cofnodion fod yn fwy cadarn o ran y rhai oedd yn bresennol a'r camau oedd i'w cymryd. Nodwyd hyn gan y Prif Weithredwr. Nodwyd hefyd pa mor bwysig yw cwblhau’r hyfforddiant gorfodol.

**Nodwyd.**

**6. Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol (Yn dod i ben ar 30 Medi 2024)**

Atgoffwyd yr Aelodau, yn dilyn cais gan y Pwyllgor, bod Log Gweithredu ar gyfer Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu i gynorthwyo i fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o’r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar bob un o'r camau gweithredu, oedd wedi'u diwygio ers y cyfarfod diwethaf, mewn ymateb i’r sylwadau.

Nodwyd bod gweithgor Llwybr yr Arfordir wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â’r camau gweithredu oedd yn deillio o adolygiad Archwilio Mewnol o Lwybr yr Arfordir. Roedd yr adolygiad hwn wedi clustnodi bod nifer o'r camau gweithredu yn gysylltiedig â'i gilydd ac wedi gofyn am newid y dyddiad cwblhau pob cam gweithredu i 31/3/2025. Hefyd rhoddwyd diweddariad ar y cynnydd o ran nifer o’r camau blaenoriaeth uchel a chanolig, yn ogystal â’r camau blaenoriaeth isel mewn ambr; roedd nifer o'r camau hyn wedi'u cwblhau, tra bod camau ymlaen wedi’u cymryd ar eraill.

Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch hyfforddiant gloywi ar ddiogelu plant/ oedolion haen 2, a dywedodd y Prif Weithredwr bod swyddogion yn monitro pa gyrsiau fyddai ar gael drwy Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac y byddai'n rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf o’r Grŵp ar y camau ymlaen fyddai wedi'u cymryd.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Heath-Davies, **cytunwyd** i newid pob dyddiad cwblhau ar argymhellion Archwiliad Rheoli Cefn Gwlad ar Lwybr yr Arfordir i 31/3/25. **Nodwyd** gweddill yr adroddiad.

[Ar ôl cadarnhau y byddai bellach yn gallu bod yn bresennol yng ngweddill y cyfarfod, cymerodd Dr Heath-Davies y Gadair. Ymddiheurodd y Cynghorydd Skyrme-Blackhall a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**7. Adroddiad Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant am y Cyfnod yn diweddu ar 30 Medi 2024**

Dywedwyd bod yr adroddiad hwn yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) a nodir yn y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau ymlaen yn erbyn y dangosyddion blaenoriaeth, prosiectau, rhaglenni gwaith a gweithgareddau datblygu mewnol oedd yn gysylltiedig â'r gweithgareddau a glustnodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi 2024 ac yn cynnwys ystadegau Chwarter 2 ar gyfer rhai mesurau.

Cafwyd peth trafodaeth ynglŷn â phwysigrwydd mesur effeithiau/ canlyniadau, yn hytrach na metrigau/ allbynnau a'r anawsterau o wneud hynny. Hefyd rhoddwyd eglurhad pellach am rai o'r diweddariadau ar y cynnydd. Gofynnodd un Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch gweithredu'r ymarferiad ar Gyllidebu Sylfaen Sero. Atebodd y Prif Weithredwr bod oedi wedi bod yn y gwaith oherwydd yr Archwiliad, fodd bynnag y flaenoriaeth oedd gosod cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf drwy ddefnyddio arian wrth gefn, gyda'r bwriad o bennu cyllideb fwy cytbwys yn ystod 2025/26 drwy ddefnyddio Sylfaen Sero a chynhyrchu incwm ychwanegol. Byddai'r mater yn cael ei drafod gyda'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd cyn y cyfarfod gyda'r Dirprwy Brif Weinidog sydd i'w gynnal ddechrau mis Rhagfyr.

**Nodwyd.**

**8. Adroddiad Monitro Sicrwydd - Cydymffurfiaeth, Dyletswyddau Cyhoeddus a Statudol, a Gwelliant Corfforaethol**

Dywedodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth mai nod yr adroddiad hwn oedd adolygu perfformiad presennol yr Awdurdod o ran cydymffurfiaeth, dyletswyddau cyhoeddus a statudol, a meysydd gwelliant corfforaethol. Byddai'r adroddiad hwn yn un elfen o'r mesurau rheoli risg, ac yn gymorth i'r swyddogion ac i'r Aelodau fonitro, asesu ac ymateb i feysydd gwaith cydymffurfiaeth a gwelliant corfforaethol. Hefyd roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau ymlaen yn erbyn y meysydd gwelliant corfforaethol a glustnodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod ac yn y Cynlluniau Cyflawni.

Roedd yr adroddiad yn rhoi sgoriau cydnerthedd ar gyfer pob maes, a lle bod lefelau goddefiant neu sbardunau wedi'u cyrraedd oedd yn arwain at sgôr a ystyrir sy'n 'peri risg neu sy'n 'peri pryder', roedd gwybodaeth ychwanegol ac ymateb y rheolwyr wedi'u rhoi.

Mynegwyd pryder ynghylch yr anallu i roi'r ffigurau perfformiad chwarterol yn dilyn uwchraddio'r system gynllunio, yn enwedig gan fod hyn wedi effeithio ar yr adroddiadau dros sawl chwarter. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod yr Awdurdod yn un o dri yr effeithir arnynt gan y mater hwn, a bod y swyddogion wedi cyfarfod â'r cwmni i bwysleisio pwysigrwydd datrys y mater, a'i fod yn hyderus y byddai hyn yn digwydd yn y dyfodol agos. Yn y cyfamser, roedd yr Awdurdod yn sefydlu ei systemau ei hun i groeswirio'r wybodaeth unwaith fydd y mater wedi'i ddatrys.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 12.15pm a 12.25pm]

**9. Adroddiad Chwarterol ar Iechyd, Diogelwch a Lles**

Gan fod y Rheolwr Prosiect Iechyd a Diogelwch wedi gadael yr Awdurdod, cyflwynwyd ei adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Pobl, ac roedd yr adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar ddamweiniau a digwyddiadau am y cyfnod Ebrill i Hydref 2024, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd, a'r gwaith arall sy'n cael ei wneud. Hefyd cyflwynwyd dangosfwrdd o'r ystadegau salwch staff.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch trefniadau i benodi Swyddog newydd, atebodd y Prif Weithredwr bod gan yr Awdurdod system gadarn mewn lle oedd yn galluogi rheolwyr i fod yn gyfrifol am Iechyd a Diogelwch yn hytrach nag un unigolyn. Byddai'r Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn rhoi gwybodaeth, neu gellid ceisio gwybodaeth gan arbenigwyr. Fodd bynnag, dywedodd y gallai'r adolygiad parhaus o'r Tîm Cefn Gwlad gynnwys rhywfaint o adnoddau fyddai'n cael eu neilltuo yn benodol ar gyfer y tîm hwnnw.

**Nodwyd.**

**10. Adroddiad ar y Gyllideb am y 6 mis hyd at fis Medi 2024**

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y gyllideb refeniw net oedd yn dangos gwarged net o £63k yn erbyn diffyg a ragwelwyd yn y gyllideb o £117k (£180k yn well na'r gyllideb). Fodd bynnag, nid oedd dyfarniadau cyflogau a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi'u hymgorffori yn y ffigurau gwirioneddol, a byddent yn debygol o leihau'r gwarged i ddiffyg bach o £6k. Serch hynny, roedd yr incwm cyffredinol yn £275k yn uwch na'r gyllideb, er bod y costau hefyd yn £34k yn uwch na'r gyllideb. Roedd

crynodeb o’r perfformiad manwerthu yn dangos canlyniad cadarnhaol hyd yn hyn gyda throsiant uwch am yr hanner blwyddyn yn erbyn y gyllideb.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, dywedwyd mai'r sefyllfa refeniw a ragwelwyd ar gyfer diwedd blwyddyn 2024/25 oedd gwarged gweithredol o £257k er gwaethaf bod diffyg net o £509k wedi’i gyllidebu yn y gyllideb wreiddiol. Roedd hyn i’w briodoli i gyllid refeniw ychwanegol o £660k a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru, a chynnydd mewn incwm buddsoddi. Felly ni ddisgwylir diffyg yn y gyllideb am 2024-25.

Roedd y rhaglen gyfalaf am y flwyddyn wedi cynyddu o'r gyllideb wreiddiol o £972k i gyllideb ddiwygiedig o £1,604k. Roedd y gyllideb wedi cynyddu yn bennaf oherwydd bod eitemau wedi'u cynnwys oedd wedi’u harchebu ddiwedd y flwyddyn ond heb eu derbyn, yn ogystal â chyllideb uwch ar gyfer adeiladu'r Ystafell Werdd arfaethedig, offer Iechyd a Diogelwch ychwanegol, ac ailosod boeler naddion pren mewn argyfwng.

Hefyd rhoddwyd y ffigurau ar gyfer y cronfeydd wrth gefn, sef y cronfeydd cyffredinol a’r cronfeydd wedi'u clustnodi; rhagwelwyd y byddai balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £1,516K ddylai gadw balans y gronfa o fewn y polisi cronfeydd wrth gefn, tra bod disgwyl i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn a'r Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio gael eu defnyddio yn rhannol yn ystod y flwyddyn. Roedd disgwyl hefyd y byddai'r arian wrth gefn a glustnodwyd yn lleihau yn ystod 2024-25 wrth i’r prosiectau gael eu cyflawni.

Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch costau uwch y prosiectau cyfalaf megis ail-adeiladu’r Ystafell Werdd a’r prosiect Traeth Mawr. Rhoddodd y swyddogion sicrwydd iddynt bod arian wrth gefn wedi'i gynnwys yn y gyllideb a bod contractau wedi'u paratoi.

**Nodwyd** yr adroddiad a chymeradwywyd y symudiad yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd hyd yn hyn.

**11. Eithrio’r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Havard, **PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu**.**

**12. Polisi Rheoli Risg – Cofrestr Risg a Datganiad Rheoli Risg**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cofrestr Risg a Datganiad am Barodrwydd i Dderbyn Risg ar fformat newydd wedi'u cyflwyno mewn cyfarfod blaenorol o’r Pwyllgor. Ychydig iawn o newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf a thynnwyd sylw at y rhain a thrafodwyd

awgrymiadau eraill gan yr Aelodau. Dywedwyd y byddai rhai materion yn cael eu clustnodi drwy'r cofrestri is-risgiau, ac y gellid eu huwchgyfeirio i'r brif gofrestr yn ôl yr angen. Byddai clustnodi materion yn y dyfodol/ sganio'r gorwel yn cael eu hystyried cyn y cyfarfod nesaf.

**Nodwyd.**

**13. Profi ac Adolygu Cynllun Parhad Busnes**

Dywedodd y Pennaeth Datgarboneiddio, yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Parhad Busnes gan y Pwyllgor fis Tachwedd 2023, a'r Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh fis Chwefror 2024, bod grŵp wedi'i sefydlu i brofi ac adolygu'r dogfennau yn flynyddol i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu parhau â'i weithrediadau hanfodol pe bai achos o ddigwyddiad mawr. Fis Medi 2024 roedd y Tîm Ymateb Brys wedi cyfarfod i gynnal ymarferiad pen desg i asesu ei ymateb i ddigwyddiad seiber. Yn dilyn yr ymarferiad, roedd y grŵp wedi ôl-ystyried y canfyddiadau ac wedi rhoi camau gweithredu ar waith yn ogystal â diweddaru'r Cynllun Parhad Busnes a'r Cynlluniau TGCh.

**Nodwyd.**

**14. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**